Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

## Cofnodion 30 Ebrill 2025

## Hybrid (Tramshed Tech neu arlein drwy Teams)

**9:45** (i Aelodau'n unig) **9:55 - 10:00** (i Aelodau ac Archwilwyr yn unig)

**10:00 – 13:00** (pwyllgor llawn)

| | |
|---|---|
| Mair Gwynant | Aelod o'r Pwyllgor [Cadeirydd] |
| Nicola Williams | Aelod o'r Pwyllgor |
| Fran Targett | Aelod o'r Pwyllgor |
| Peter Davies | Aelod o'r Pwyllgor |
| Annmarie Thomas | Aelod o'r Pwyllgor |
| Phil George | Aelod o'r Pwyllgor |
| Sabiha Azad | Aelod o'r Pwyllgor (dan hyfforddiant) |
| Princess Onyeanusi | Aelod o'r Pwyllgor (dan hyfforddiant) |
| Derek Walker | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Marie Brousseau Navarro | Dirprwy Gomisiynydd |
| Lisa Pitt | Cyfarwyddydd Cyllid a TG |
| Helen Nelson | Cyfarwyddydd cynllunio Strategol, Hinsawdd a Natur |
| Natalie Jenkins | Cynorthwyydd Pobl *[Ysgrifenyddiaeth]* |
| Clare James | Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru |
| Steen Gourlay | Archwilydd Mewnol, TIAA |

*RHAN 1 - SICRWYDD*

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o fuddiant

Ymddiheuriadau oddi wrth Samer Karrar, sydd ar absenoldeb mamolaeth.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Mae Natalie Jenkins wedi ymuno ậ'r cyfarfod i ddarparu ysgrifenyddiaeth yn y dyfodol.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf (Rhan 1 - Sicrwydd) a materion yn codi

<u>Cymeradwyo cofnodion</u>

30ain Ionawr 2025 – cymderadwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent eisoes ar yr agenda

Rhestr Dreigl o Gamau Gweithredu ARAC
Roedd cyflwyno eitem drafod ar Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfarfod ARAC ym mis Gorffennaf ar restr camau gweithredu'r Comisiynydd. Fodd bynnag, gan y byddai arweinydd y Rhaglen (Korina Tsioni) ar wyliau y pryd hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafodaeth ar yr Academi tan gyfarfod mis Hydref. Cytunwyd i gyflwyno trafodaeth ar raglen ryngwladol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfarfod mis Gorffennaf yn lle hynny. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r Comisiynydd yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd am raglen waith ryngwladol Llywodraeth Cymru ym mis Mai.

CAMAU GWEITHREDU:

2.1 Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu Rhyngwladol i' drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf, a'r Academi i'w drafod ym mis Hydref.

## 3. Archwiliad Allanol

**Cynllun archwilio statudol**

Cyflwynodd Claire James o Archwilo Cymru y Cynllun Archwilio statudol 2024/25.

Pwyntiau trafod:

- Tynnwyd sylw at y gwerthoedd perthnasedd, a osodwyd ar £45,000, a gwallau dros £2,000 i'w hadrodd arnynt.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch partïon cysylltiedig, a ffrydiau incwm megis trefniadau noddi'r Academi Arweinyddiaeth lle gall cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu cyllid. Nododd y Comisiynydd bod hyn wedi'i ystyried yn helaeth, a'i fod yn gyfforddus bod partneriaid yr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn talu am wasanaeth a hynny heb gymeradwyaeth gan y Swyddfa mewn unrhyw ffordd. Bydd ymwadiad i'r perwyl hwn yng nghontractau'r Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i dynhau'r trefniadau yn hyn o beth. Mae trafodaethau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â noddwyr wedi'u dogfennu mewn cadwyni e-bost a chofnodion y tîm uwch arweinyddiaeth (UDA). Cytunwyd y byddai cam ychwanegol yn fuddiol, gyda chrynodeb o'r noddwyr y cytunwyd arnynt a llofnod ffurfiol gan y Comisiynydd/UDA. Cynigiodd Mair Gwynant rannu rhai cwestiynau allweddol i gynorthwyo gyda datblygiad templed/ffurflen y gellid ei defnyddio.

- Nodwyd bod aelod o dîm Cyfathrebu Archwilio Cymru wedi bod ar raglen Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2024/25, er nad ydynt yn gwneud gwaith archwilio ariannol nac yn ymwneud ag archwilio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol .

CAMAU GWEITHREDU:

3.1 Bydd Mair Gwynant yn rhannu dogfen sy'n cynnwys cwestiynau allweddol am ddiwydrwydd dyladwy yn ymwneud ậ gwrthdaro buddiannau ariannu, i gynorthwyo gyda chynhyrchu templed i'w ddefnyddio gan yr Academi.

3.2 Archwilio Cymru i weithio i amserlen i sicrhau bod y datganiadau ariannol ar gael i'w llofnodi yng nghyfarfod ARAC ym mis Gorffennaf.

4. **Archwilio Mewnol**

4.1 Archwiliad Seiberddiogelwch

Rhoddodd Steen Gourlay, TIAA, drosolwg o'r Archwiliad Seiberddiogelwch a drafodwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr ac a ddygwyd yn ôl i'r cyfarfod hwn gydag ymateb y rheolwyr a gwybodaeth bellach gan Orbits IT. Roedd yr archwiliad wedi derbyn *Sicrwydd Rhesymol*, gyda chwe argymhelliad pwysig.

Cyfeiriodd Annmarie Thomas at ymateb y rheolwyr i Argymhelliad 1, a dywedodd lle mae'n son am "Ddechreuwyr ac Ymadawyr" y dylai hefyd gynnwys staff sydd wedi newid rôl swydd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch rhai o'r ymatebion a oedd i bob golwg yn seiliedig ar fyfyrdodau yn dilyn yr archwiliad, a oedd yn rhannol oherwydd bod angen i Orbits ystyried eu hymatebion i gwestiynau a godwyd. Cytunwyd y byddai mwy o sgwrs, a oedd yn cynnwys Orbits adeg yr archwiliad yn fuddiol yn y dyfodol.

Trafodaeth bellach ynghylch seiberddiogelwch ac a yw'r UDA yn gyfforddus bod digon yn cael ei wneud i gadw golwg craff ar faterion cyfredol ac esblygol. Darparwyd gwybodaeth ynghylch y mesurau diogelwch, copïau wrth gefn a rhybuddion a oedd ar waith ar systemau'r Swyddfa ac roedd y Pwyllgor yn dawel eu meddwl yn gyffredinol bod cynlluniau a chamau gweithredu digonol ar waith. Pwysleisiasant bwysigrwydd bod y tîm staff cyfan yn gyfredol gymwys o ran hyfforddiant.

CAMAU GWEITHREDU:

4.1.1. Dylai Cyfarwyddydd Cyllid sicrhau bod Orbits (neu ddarparydd TG amgen yn ôl priodolrwydd) yn neilltuo amser yn y dyfodol i fod yn rhan o sgwrs 3-ffordd adeg yr archwiliad er mwyn sicrhau cyfraniad amserol.

4.1.2. Dylai Cyfarwyddydd Cyllid anfon ymateb Orbits ar y prawf adfer at Princess Onyeanusi, pan gaiff ei dderbyn.

.

4.1.3 Dylai Cyfarwyddydd Pobl gynnwys staff sydd wedi newid rôl swydd, mewn perthynas ag argymhelliad 1.

4.1.4 Dylai Cyfarwyddydd Cynllunio Strategol, Hinsawdd a Natur gynnwys cwblhau ailstrwythuro SharePoint yn y cynllun gwaith dros yr ychydig fisoedd nesaf.

4.2 Archwiliad dilynol

Rhoddodd Steen Gourlay drosolwg o adroddiad yr Archwiliad Dilynol, a oedd wedi edrych ar Ymgysylltiad Rhanddeiliaid (o 2021/22), Adnoddau Dynol, Rheoli Risg, Rheoli Prosiectau a Rheolaethau Ariannol Allweddol. Gweithredwyd tri argymhelliad, mae pump heb eu gweithredu. Roedd rhai wedi'u hatal oherwydd blaenoriaethau eraill ond roedd bwriad parhaus iddynt gael eu gweithredu yn y dyfodol.

Dywedodd y staff bod y Polisi Caffael, oedd wedi'i ddiweddaru, wedi'i lofnodi gan yr UDA ym mis Ebrill, a bod y camau Rheoli Prosiectau bron wedi'u cwblhau.

CAMAU GWEITHREDU:

4.2.1 Cyfarwyddydd Cynllunio Strategol i sicrhau bod y polisi rheoli prosiectau wedi'i gwblhau a'i ychwanegu at y daenlen bolisi erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.

4.3 Adroddiad Blynyddol 2024/25

Rhoddodd Steen Gourlay drosolwg byr o'r adroddiad blynyddol. Y farn gyffredinol ar gyfer y flwyddyn 2024/25 oedd ei bod yn *Rhesymol* a bod prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu effeithiol ar waith.

Nid oedd unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad blynyddol.

Nododd y Cadeirydd fod bwriad wedi bod i geisio ffitio archwiliad ychwanegol i mewn yn Chwarter 4 2024/25, ond bod llwyth gwaith a chapasiti wedi atal hyn, a hefyd teimlwyd nad hwn oedd yr amser iawn i'w brofi, gan mai pwnc yr archwiliad oedd rheoli perfformiad. Teimlai'r Pwyllgor y gellir defnyddio archwilio mewnol i roi sicrwydd trwy adolygu neu brofi prosesau, ac hefyd fel canllaw yng nghanol datblygiad y prosesau hyn. Cytunwyd y byddai ffurfioli cynllun archwilio blynyddol (fel yr oedd y Pwyllgor yn bwriadu ei wneud – gweler isod) yn helpu i sicrhau dull strategol o fynd ati, gyda ffocws ar y meysydd sydd a'r mwyaf o risg, a gydag amserlen y gellir ei chyflawni.

4.4 Cynllun Archwilio Drafft 2025/26

Gwnaed y newidiadau canlynol i'r cynllun archwilio blynyddol:

- TGCh i symud ymlaen i 2026/27.
- Rheolaethau Ariannol Allweddol yn Ch1 (canol mis Mai) – Dan arweiniad y Cyfarwyddydd Cyllid.

- Llywodraethu corfforaethol yn Ch2 (gyda ffocws penodol ar y model 'Corfforaeth Unigol' a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, gydag enghreifftiau o arfer gorau o sefydliadau eraill. Dan arweiniad y Cyfarwyddydd Cynllunio Strategol, Hinsawdd a Natur.
- Rheoli Perfformiad Ch3 (wedi'i ehangu i gynnwys cynllunio'r gweithlu) – Dan arweiniad y Cyfarwyddydd Pobl.
- Rheoli Contractau yn Ch4 – Dan arweiniad y Dirprwy Gomisiynydd a'r Cyfarwyddydd Iechyd.
- Mae archwiliad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi sylw arbennig i sefyllfa unigryw'r model corfforaeth unigol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, gydag enghreifftiau arfer gorau o sefydliadau eraill.

Gallai archwiliad pellach ar gydweithio a phartneriaethau ddigwydd naill ar Ch2 neu Ch3 yn dibynnu ar gapasiti ac amserlen TIAA. Ond gyda 4 archwiliad eisoes wedi'u cynllunio fel y gwelir uchod, a gydag archwiliad dilynol yn angenrheidiol yn chwarter 3-4 hefyd, myfyriodd y Pwyllgor ar yr angen i fod yn gymesur ac i archwiliad ychwanegu gwerth at waith y Comisiynydd yn hytrach na bod yn faich.

Trafododd y Pwyllgor archwiliadau mewn perthynas â chynllunio gweithlu a llwyth gwaith. Gall problemau capasiti gael eu gweld fel risg yn adran Cydnerthedd yr archwiliad, ond nododd y Pwyllgor bod angen iddynt fod yn ymwybodol y gall tîm sy'n gor-gyflawni gynhyrchu canlyniadau archwilio da a all guddio'r problemau capasiti.

Cynghorodd TIAA fod cymeradwyo'r cynllun hefyd yn golygu cymeradwyo'r siarter sy'n disgrifio'r berthynas rhwng y partïon dan sylw. Cytunwyd hefyd ar gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ychwanegol y bydd y contract yn cael ei fonitro yn eu herbyn.

<u>CAMAU GWEITHREDU</u>

4.4.1 TIAA a Chyfarwyddwr y Bobl i gynnwys aelod ARAC, Annmarie Thomas yn y trafodaethau i helpu i bennu cwmpas yr archwiliad Rheoli Perfformiad.

4.4.2 TIAA a Chyfarwyddwr Cynllunio Strategol i gynnwys Peter Davies a Mair Gwynant yn y trafodaethau ar gwmpas yr archwiliad Llywodraethu Corfforaethol.

<u>4.5 Cynnydd treigl PAPAC ac archwiliad mewnol</u>

Wedi'i drafod eisoes uchod.

**5. Adnoddau a Chyllid**
Nodwyd yr adroddiad a chydnabuwyd ei fod yn glir iawn ac yn hawdd ei ddarllen.

Cynhaliwyd trafodaeth ar gyfleoedd ar gyfer incwm ychwanegol, yn dod ar fyr rybudd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Weithiau mae'n rhaid gwrthod hyn pan nad oes capasiti ychwanegol o fewn y tîm na digon o amser i alluogi recriwtio.

Nododd y Cyfarwyddydd Cyllid danwariant o £45,000 ar gyfer cyllideb 2024/25, yr oedd hi'n gyfforddus ag ef gan y gellir defnyddio hyn i ddarparu ar gyfer cronni gwyliau a chostau bach, annisgwyl eraill.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â chyllideb ddiffyg ar gyfer 2025/26 gan wybod bod cyllid ychwanegol posibl i ddod i mewn, a mesurau ar waith i'w cymryd yn ystod y flwyddyn os bydd angen.

Bydd y Cyfarwyddydd Cyllid yn darparu diweddariadau cyllidebol ar gyfer yr UDA yn chwarterol yn hytrach nag yn fisol, er y bydd monitro agos yn dal i ddigwydd a bydd unrhyw faterion yn cael eu cyfeirio at yr UDA pan fo angen.

## 6. Adroddiad Eithriadau Chwarterol ARAC a chofrestr risg

6.1 Adroddiad Eithriadau Chwarterol

Nodwyd yr adroddiad.

Canmolodd Princess Onyeanusi y tîm am eu gwaith caled gan na fu unrhyw salwch hirdymor yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf er bod y llwyth gwaith wedi bod yn uchel. Cafwyd trafodaeth am ystadegau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda 15% o weithlu'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Nododd y Dirprwy Gomisiynydd fod y ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, er yr hoffem wella ar hyn fel Swyddfa, yn enwedig ar lefel yr UDA. Mae'r Comisiynydd bellach yn arwain y gwaith ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda'r Cyfarwyddydd Pobl a Chydlynydd y Rhaglen Ryngwladol hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am rannau o'r gwaith. Mae'r swyddfa wedi'i thangynrychioli gan staff ag anabledd.

Gan gyfeirio at y polisi , mae Annmarie Thomas wedi gweithio gyda sefydliad o faint tebyg a oedd yn canolbwyntio ar feddylfryd cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda pholisi cyffyrddiad ysgafn iawn ac asesiad effaith, ac mae hi'n hapus i rannu'r wybodaeth honno.

Cafwyd trafodaeth ynghylch polisïau mewnol a'r daenlen a gedwir gyda system Coch Ambr Gwyrdd (RAG) i olrhain pryd y mae polisi i fod i gael ei adolygu/ddiweddaru. Cyngor y Pwyllgor oedd bod yna angen sicrhau bod newidiadau deddfwriaethol yn cael eu holrhain a'u cynnwys, gan gynnwys nifer o newidiadau AD, yn arbennig eleni. Ar wahân i hynny, nid oes rhaid adolygu pob polisi bob blwyddyn, felly gellir ymestyn yr amser rhwng adolygiadau ar rai polisïau. Mae polisi ar Ddeallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

6.2 Cofrestr risg

Yn dilyn yr hyfforddiant risg gyda TIAA, bu mân newidiadau i'r gofrestr, ond fel arall nid oes unrhyw newidiadau perthnasol eraill. Nododd y Comisiynydd bod craffu cynyddol ar y Ddeddf yn ystod y dengmlwyddiant, ac yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiadau, yn risg uwch.

Bu mwy o sgyrsiau cadarnhaol gyda'r tîm ynghylch pwysau gwaith, ond nid ym mhob maes ac roedd hwn yn dal i fod yn faes i gadw llygad arno.

Roedd y Swyddfa wedi lansio eu gwefan newydd; mae'r maes gwybodaeth gyhoeddus yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn gyfredol ac i ychwanegu unrhyw beth a allai fod ar goll. Yn nhermau polisïau mewnol, byddai'n fuddiol i gael arweiniad gan y Pwyllgor ynghylch pa bolisïau y dylid eu cyhoeddi'n gyhoeddus a pha rai nad oes angen eu cyhoeddi.

<u>CAMAU GWEITHREDU</u>

6.1.1. Annmarie i rannu gwaith blaenorol ar fframweithiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda Chyfarwyddwr y Bobl.

6.1.2. Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys taenlen dogfennau polisi ym mhapurau mis Gorffennaf.

6.1.3. Dirprwy Gomisiynydd i ddod ag eitem i'w thrafod ar bolisïau mewnol sydd i'w cyhoeddi i gyfarfod ARAC ym mis Gorffennaf.

<u>6.3 Polisi rheoli risg</u>

Nododd y Comisiynydd fod y polisi drafft wedi'i anfon at aelodau'r Pwyllgor gyda chais am gyngor cyn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan yr UDA. Cynigiodd y Cadeirydd ychydig o sylwadau y byddai'n eu rhannu drwy e-bost.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr awydd i gymryd risg, yn enwedig mewn perthynas â niwed i enw da. Mae llywodraethu wedi'i ddiffinio'n rhy eang, felly cytunwyd i rannu hyn.

<u>CAMAU GWEITHREDU</u>

6.3.1 Bydd Mair yn anfon awgrymiadau am ychwanegiadau i'r polisi at Marie i gael eu cynnwys.

6.3.2 Bydd Marie yn ailedrych ar y lefelau risg a drafodwyd, yna'n dod â'r polisi diwygiedig yn ôl i gyfarfod mis Gorffennaf at ddibenion gwybodaeth (gellir ei lofnodi gan Derek yn y cyfamser).

## 7. <u>Adolygiad o Gylch Gorchwyl ARAC</u>

Gwnaeth y Pwyllgor y newidiadau canlynol i'w Gylch Gorchwyl:

- Byddai Cadeirydd ARAC yn cael ei benodi drwy enwebiad gan y Comisiynydd, wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor.
- Newidiwyd cworwm o ddau aelod o'r pwyllgor i dri.
- Eglurhad bod sesiynau mentora yn ddi-dâl.
- Diweddariadau bach i derminoleg/rolau swyddi.
- Cytunwyd ar y gwelliannau arfaethedig i'r rhaglen waith yn yr atodiad.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r gofrestr risg twyll a ofynnwyd amdani gael ei hadolygu'n flynyddol fel arfer da.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd Adroddiad Blynyddol ARAC yn cael ei ysgrifennu ar ôl y cyfarfod hwn a'i anfon at bawb am sylwadau a'i lofnodi. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd yr adroddiad ar gael ar gyfer cyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor.

CAMAU GWEITHREDU:
Cyfarwyddydd Cynllunio Strategol i ddiweddaru'r Cylch Gorchwyl fel y cytunwyd.

7.2 TIAA i anfon templedi ar gyfer y gofrestr risg twyll.

Y Cadeirydd i ysgrifennu Adroddiad Blynyddol ARAC a'i ddosbarthu i bawb am sylwadau/cymeradwyaeth.

**8 Hyfforddiant iHASCO**

Rhoddodd Natalie Jenkins, Cynorthwyydd Pobl, y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad System Rheoli Dysgu ar-lein iHasco, gyda'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i'r tîm fesul cam. Unwaith y bydd y system wedi'i defnyddio'n llawn ac adborth wedi'i gasglu oddi wrth y tîm, y bwriad yw ymestyn mynediad i'r System Rheoli Dysgu i aelodau'r Pwyllgor i'w defnyddio ar gyfer hyfforddiant. Mae'n debyg y bydd hyn yn yr Hydref.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y Cadeirydd ậ'r rhan hon o'r cyfarfod i ben.